# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Mai 2019

Amser: 09.34 - 10.06

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Andrew RT Davies AC<br>Helen Mary Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Gohebiaeth y Pwyllgor: Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (15 Mawrth 2019)

## 3 Lobïo: Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau (22 Mawrth 2019)

3.1 Nodwyd y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau a chytunwyd ar yr ymateb drafft.

## 4 Cod Ymddygiad – Adolygiad: Gohebiaeth gan y Llywydd (7 Mai 2019)

4.1 Trafodwyd y wybodaeth ddiweddaraf ac fe'i nodwyd. Cytunodd y Cadeirydd i ymateb i'r Llywydd.

## 5 Cod Ymddygiad – Adolygiad

5.1 Trafododd yr Aelodau'r newidiadau a awgrymwyd ac roeddent yn cytuno â hwy.

5.2 Bydd y Clercod yn paratoi papur pellach i'w drafod ar newidiadau arfaethedig eraill ac ar ôl cytuno arnynt, bydd yr holl newidiadau'n cael eu gwneud i'r Cod ar yr un pryd.

## 6 Y Bwrdd Taliadau: Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

6.1 Nododd yr Aelodau'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

6.2 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno ymateb ar nifer o bwyntiau a godwyd gan yr Aelodau.